Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# Rheolwr Diogelwch Risg a Hawliant (Cyfnod Mamolaeth)

## Tîm Iechyd a Diogelwch, Adran Gweithrediadau Technegol

**Pecyn Gwybodaeth Ymgeisydd**

# Cynnwys


Croeso gan  Ant Jones, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol . . . . . . . . . . 3

Pwy ydym ni . . . . . . . . . . 4

Gogledd Cymru; Lle i fyw, gweithio ac ymweld ag ef . . . . . . . . . . 6

Y Rôl . . . . . . . . . . 7

Beth allwn gynnig i chi . . . . . . . . . . 8

Job Description . . . . . . . . . . 9

Manyleb y Person . . . . . . . . . . 13

Sgiliau yn yr Iaith Gymraeg . . . . . . . . . . 16

Llinell Amser Recriwtio . . . . . . . . . . 17

Sut i ymgeisio . . . . . . . . . . 17




# Croeso gan  Ant Jones, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol



Pan fydd pobl yn meddwl am y Gwasanaeth Tân ac Achub, maent yn tueddu i feddwl am Ddiffoddwyr Tân sy'n ymateb i alwadau brys. Er bod hyn yn rhan hanfodol o'r hyn a wnawn, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn sefydliad amrywiol gydag ystod eang o rolau proffesiynol ac arbenigol sy'n cefnogi ein gallu i ddarparu gwasanaeth diogel, effeithiol a gwydn i'n cymunedau.

Mae ein Tîm Iechyd a Diogelwch yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi'r Gwasanaeth i amddiffyn ein gweithwyr, rheoli risg a chynnal safonau uchel o iechyd, diogelwch a lles. Mae'r tîm yn darparu cyngor ac arweiniad arbenigol ar draws y sefydliad, gan ein helpu i gyflawni ein cyfrifoldebau statudol, dysgu o ddigwyddiadau a gwella'r ffordd rydym yn rheoli risg yn barhaus.

Bydd y Rheolwr Risg, Diogelwch a Hawliadau yn chwarae rôl allweddol o fewn y tîm hwn, gan ddarparu arweinyddiaeth broffesiynol a chyngor strategol ar iechyd a diogelwch, rheoli risg, parhad busnes a hawliadau yswiriant. Gan weithio gyda chydweithwyr ar draws y Gwasanaeth, bydd deiliad y swydd yn helpu i sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i amddiffyn ein pobl, cefnogi effeithiolrwydd gweithredol a chynnal hyder y cyhoedd yn y Gwasanaeth.

Rydym yn chwilio am weithiwr proffesiynol profiadol a chredadwy sy'n gallu adeiladu perthnasoedd cryf, darparu cyngor clir a phragmatig, a dylanwadu ar newid cadarnhaol ar bob lefel o'r sefydliad. Mae hwn yn gyfle i wneud gwahaniaeth gwirioneddol mewn amgylchedd cymhleth a heriol, gan weithio ochr yn ochr â chydweithwyr sydd wedi ymrwymo i gadw pobl Gogledd Cymru yn ddiogel.

Mae ein gwerthoedd craidd yn ymwneud ag ymdrechu am ragoriaeth, gwasanaethu cymunedau Gogledd Cymru a thrin pobl yn dda. Rydym eisiau i bobl gyda'r un gwerthoedd ymuno â'n tîm a'n helpu i barhau i wneud Gogledd Cymru yn lle diogel i fyw, gweithio ac ymweld.

# Pwy ydym ni

Yng Ngwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru, ein pwrpas yw Atal, Amddiffyn ac Ymateb. I wneud hyn rydym yn cyflogi mwy na 850 o staff ym maes gweithredol a rolau cefnogi.

Rydym yn helpu i amddiffyn ardal sy’n gorchuddio tua 2,400 milltir sgwâr a poblogaeth breswyl o dros 700,000 o bobl, yn ogystal a channoedd o miloedd o ymwelwyr sy’n teithio i mewn ac allan o Ogledd Cymru bob blwyddyn.

Ar gyfartaledd, rydyn ni’n mynd i oddeutu 2,000 o danau a 1,000 o argyfyngau heblaw tan megis gwrthdrawiadau traffig ffyrdd a digwyddiadau llifogydd bob blwyddyn. Rydym hefyd yn mynychu tua 2,000 o alwadau brys sy’n troi allan i fod yn alwadau diangen.

Rydym yn gwneud gwaith atal tan helaeth trwy ymweld a phobl yn eu cartrefi, mynychu digwyddiadau, ymgysylltu a phlant a phobl ifanc, a gweithio gyda phartneriaid i addysgu a hysbysu cymunedau lleol. Rydym hefyd yn cynnal presenoldeb gweithredol yn y cyfryngau, gan gynnwys ar gyfryngau cymdeithasol.

Mae rhan arall o’n gwaith mewn rôl gorfodi diogelwch tan, felly rydyn ni’n ymweld busnesau a gweithleoedd i sicrhau bod y bobl sy’n gyfrifol amdan yr adeiladau hynny’n cadw eu trefniadau diogelwch tan i fyny i afon.

Mae Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru yn lle proffesiynol a chyfeillgar i weithio. Rydym yn cynnig diwylliant cefnogol lle rydym yn gweithio’n galed i gynnal ein gwerthoedd craidd.

Gallwch ddarllen mwy am ein Gwerthoedd Craidd ar y dudalen nesaf.

I gael rhagor o wybodaeth am y Gwasanaeth, ewch i wefan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.



# Ein Gwerthoedd Craidd

GWNEUD GOGLEDD CYMRU'N LLE MWY DIOGEL I FYW, GWEITHIO AC YMWELD AG O

## Gwasanaethu'r gymuned

**Mae amddiffyn ein cymunedau'n ganolog i bopeth yr ydym ni'n ei wneud -**

trwy weithio gyda'n partneriaid a grwpiau eraill i leihau risg a bod yn atebol i'r bobl yr ydym ni'n eu gwasanaethu.

## Pobl

**Rydym ni'n gwerthfawrogi'n gilydd -**

trwy arfer tegwch a pharch, cefnogi datblygiad personol, cydnabod teilyngdod, ymrwymo i onestrwydd, cywirdeb a chyd ymddiriedaeth.

## Amrywiaeth a Chynhwysiant

**Rydym ni'n galluogi pobl i gyrraedd eu llawn botensial waeth beth fo'u cefndir neu amgylchiadau -**

trwy werthfawrogi gwahaniaethau, hyrwyddo cyfle cyfartal, herio rhagfarn a chamwahaniaethu.

## Ymdrechu dros ragoriaeth

**Rydym ni bob amser yn ymdrechu i wneud ein gorau glas ym mhopeth yr ydym ni'n ei wneud -**

trwy fod yn arloesol a phen agored, croesawu adborth gan eraill, dysgu o brofiad, cydnabod cryfderau yn ogystal â chyfleoedd ar gyfer datblygu.



# Gogledd Cymru; Lle i fyw, gweithio ac ymweld ag ef



O fewn rhanbarth Gogledd Cymru mae Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Wrecsam ac Ynys Môn. Mae gan bob sir rywbeth arbennig i'w gynnig, p'un a ydych chi'n chwilio am gyffro ac antur neu ddiwylliant a threftadaeth. Mae byw a gweithio yng Ngogledd Cymru'n cynnig amgylchedd ardderchog i unrhyw un sy'n ceisio gwell ansawdd bywyd.

Mae gan yr ardal, sy'n cael ei hystyried yn un o'r lleoedd mwyaf prydferth yn y DU, lawer i'w gynnig. Gan ei bod yn ardal o dirwedd eithriadol sy'n amrywio o draethau tywod hir a phentiroedd trawiadol i ddyffrynnoedd cysgodol, rhosydd agored a mynyddoedd garw, mae yma rywbeth i bawb. Mae twristiaeth yn cyfrannu'n helaeth at yr economi leol, gydag amrywiaeth eang o gyfleusterau ar draws y rhanbarth i ddenu gwahanol ymwelwyr i'r ardal bob blwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys llinellau sip cyffrous, parciau antur a chwaraeon dŵr, a theithiau cerdded mwy hamddenol i ddarganfod trefi a chefn gwlad yr ardal neu i ymweld â mannau hanesyddol a diwylliannol, gan gynnwys cestyll.

Mae Gogledd Cymru yn agos at natur ac yn cynnig digon o le awyr agored, ond mae hefyd o fewn cyrraedd i fwrlwm a phrysurdeb trefi a dinasoedd mawr Gogledd-orllewin Lloegr, fel Caer, Lerpwl a Manceinion. Mae'r cysylltiadau rheilffordd hefyd yn cysylltu arfordir Gogledd Cymru â dinasoedd mawr ar draws y DU, gyda threnau uniongyrchol yn mynd i Lundain (o fewn 3 – 4 awr), Birmingham a Manceinion ymysg eraill.

Mae bwyd a diod yn rhan bwysig o ddiwylliant Cymru gyda gwyliau bwyd a marchnadoedd yn digwydd ledled y rhanbarth i arddangos y bwydydd a'r diodydd gorau sydd gan Gymru i'w cynnig. Gan ddefnyddio cynnyrch lleol a thymhorol, o bysgod newydd eu dal i gig oen tyner lleol, caws, gwin, cwrw a jin, mae yma ddigonedd o leoedd bwyta at ddant pawb. Mae'r ardal yn cynnig bwytai bwyd cain, tafarndai gastro a bistros yn ogystal â thafarndai cefn gwlad, ystafelloedd te a chaffis.

Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae gan Gymru boblogaeth o ychydig dros 3.1 miliwn, gyda thua 18% o'r boblogaeth yn siaradwyr Cymraeg. Mae'r Cymru'n angerddol am yr iaith, chwaraeon a diwylliant ac mae cystadlaethau cerddoriaeth, barddoniaeth a chelfyddyd yn digwydd yn flynyddol – sef yr Eisteddfodau. Gwyliau diwylliannol ydyn nhw sy'n cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn darparu llwyfan cenedlaethol ar gyfer cerddoriaeth, dawns, llenyddiaeth, celfyddydau gweledol a pherfformio. Er bod y Gymraeg yn rhan bwysig o'r Eisteddfod, mae'r digwyddiadau'n agored i bawb ac felly nid oes rhaid i chi fod yn siaradwr Cymraeg i'w mynychu a'i mwynhau. Bydd pobl o bob oed a gallu, a dysgwyr Cymraeg, yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn Eisteddfodau, gydag Eisteddfod Ryngwladol Llangollen yn cael ei chynnal bob blwyddyn ar ddechrau Awst. Mae hon yn dod â phobl o bob cwr o'r byd at ei gilydd i ddathlu'r gwahanol ddiwylliannau, cerddoriaeth a chelfyddydau mewn un lle.

# Y Rôl


Rydym yn edrych i benodi Rheolwr Risg, Diogelwch a Hawliadau yn ein Tîm Iechyd a Diogelwch yn y Rhyl ar gontract cyfnod penodol 12 mis i gwmpasu absenoldeb mamolaeth.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn arwain ac yn rheoli ymagwedd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru at hawliadau iechyd, diogelwch, rheoli risg ac yswiriant, gan sicrhau bod y Gwasanaeth yn parhau i fodloni ei rwymedigaethau statudol ac yn cynnal safonau uchel o lywodraethu a diogelwch gweithwyr.

Yn gyfrifol am ddatblygu, adolygu a gweithredu polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau i sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth ac arfer gorau perthnasol, bydd y deiliad swydd yn gweithio ar y cyd ag ystod eang o randdeiliaid mewnol ac allanol i hyrwyddo diwylliant pragmatig o iechyd a diogelwch, darparu cyngor a chefnogaeth broffesiynol ar draws y sefydliad, a goruchwylio rheolaeth effeithiol hawliadau a phrosesau cysylltiedig.

Mae natur y Gwasanaeth yn golygu bod staff yn agored yn rheolaidd i sefyllfaoedd heriol, dilemâu moesol cymhleth, ac amgylcheddau peryglus, sy'n symud yn gyflym neu yn emosiynol sy'n gofyn am farn gadarn a gwneud penderfyniadau effeithiol. Mae'r rôl yn gofyn am weithiwr proffesiynol hyderus a chredadwy gyda sgiliau cyfathrebu a meithrin perthynas rhagorol, sy'n gallu dylanwadu ar randdeiliaid ar bob lefel a gyrru gwelliant parhaus ar draws y Gwasanaeth.

Gan ddarparu cyngor strategol i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Prif Swyddogion, bydd deiliad y swydd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion sefydliadol tra'n cynnal safonau proffesiynol uchel. Fel sefydliad dwyieithog, bydd angen sgiliau Cymraeg Lefel 2 ar ddeiliad y swydd.



# Beth allwn gynnig i chi

## Tâl

Gradd 10 yn dechrau o £48,738

## Oriau gwaith

Byddwch yn gweithio 37 awr yr wythnos o ddydd Llun i ddydd Gwener ond rydym yn cynnig cryn dipyn o hyblygrwydd a cheisiwn gefnogi staff i gydbwyso eu bywyd gwaith a chartref. Yn ddiweddar, rydym wedi cyflwyno polisi gweithio hyblyg i hyrwyddo gweithio rhithiol ac yn y cartref lle bo’n ymarferol.

## Manteision cyflogaeth

- Hawl am Wyliau Blynyddol hael, yn cychwyn ar 25 diwrnod y flwyddyn, yn ogystal a gwyliau cenedlaethol
- Cynllun amser Fflecsi sy’n caniatau i staff weithio’n hyblyg
- Darperir gwisg Gwasnaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru
- Mynediad i gyfraniad gweithwyr o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
- Byddwn yn cynnig hyfforddiant, cefnogaeth ac arweiniad i ddatblygu eich potensial
- Cefnogaeth iechyd, ffitrwydd a lles, yn cynnwys iechyd galwedigaethol, cefnogaeth cydweithiwr, hyrwyddwyr iechyd meddwl, therapyddion corfforol a mynediad i ampfeydd y Gwasanaeth
- Ystod o fuddion eraill megis cynllun beicio i’r gwaith a mynediad i bris gostyngol mewn cannoedd o siopau, hamdden a darparwyr gwasanaethau.

# Job Description

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd** | Rheolwr Diogelwch Risg a Hawliant |
| **Adran** | Tîm Iechyd a Diogelwch, Adran Gweithrediadau Technegol |
| **Adrodd i** | Rheolwr Gweithrediadau Technegol |

## Pwrpas Cyffredinol y Swydd

Bydd y Rheolwr Risg, Diogelwch a Hawlio'n arwain sefydlu strategaeth a chyfeiriad ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) yng nghyswllt ymroddiad y Gwasanaeth i gynnal safonau uchel gydag Iechyd a Diogelwch a rheolaeth hawliant. Bydd angen i ddeilydd y swydd sicrhau fod strategaeth, polisïau, gweithdrefnau ac arweiniad ein Gwasanaeth yn cyfarfod a holl ofynion deddfwriaeth.

Bydd yr unigolyn yn gweithio ar y cyd ag ystod o bobl i fewnosod diwylliant iechyd a diogelwch pragmatig ar gyfer ein holl staff a'u cefnogi lle bo'r angen. Bydd deilydd y swydd yn cynnig cyngor, cefnogaeth a gweithredoedd i gyfarfod â'n gofynion iechyd a diogelwch.

Mae ymateb i argyfyngau'n peri fod diffoddwyr tân a rheolwyr yn gorfod wynebu sefyllfaoedd lle bydd cyfyng-gyngor moesol a rhaid iddynt wneud penderfyniadau mewn mannau peryglus, a llawn emosiwn sy'n datblygu'n gyflym. Bydd angen i'r unigolyn feddu ar ymagwedd gadarnhaol i reoli risg er mwyn gallu cynnal effeithiolrwydd gweithredol addas.

Fel aelod o'r tîm Gweithredol, bydd deilydd y swydd yn arwain cydweithwyr i gyflawni amcanion y sefydliad. Byddant yn hybu ymagwedd broffesiynol drwy gyfarfod â gweithdrefnau a pholisi gan ehangu enw da adran iechyd a diogelwch uchel ei safon.

## Principal Duties and Responsibilities

1. Cyfrifoldeb dros gynghori'r Prif Swyddog Tân, Tîm Arweinyddiaeth y Gwasanaeth a'r Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles ar yr holl faterion sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch fel y caiff ei ddiffinio yn Neddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle 1974 a deddfwriaeth berthnasol.

2. Datblygu ac arwain ar weithredu a hybu diwylliant iechyd a diogelwch drwy'r Gwasanaeth drwy ddarparu a datblygu polisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch yn cynnwys asesiad risg, atal damweiniau, mentrau iechyd a chyfrifoldeb bersonol cydnabyddedig y staff. Gweithio'n agos gyda Gwasanaethau Tân ac Achub eraill yng Nghymru i gyflawni ymagwedd Gymru Gyfan lle bo'n addas.

3. Hwyluso cynnal a chadw a rheolaeth iechyd a diogelwch, risgiau'r gwasanaeth a hawliant drwy systemau, awdit/archwiliad a sefydlu safonau a disgwyliadau uchel gan y gweithwyr ynglŷn ag ymddygiad a pherfformiad diogel. Datblygu a chynnal rhaglen o archwiliadau ac awdit i hwyluso datblygiad parhaus mewn perfformiad iechyd a diogelwch.
4. Ar y cyd â'r tîm dysgu a datblygu, adnabod yr angen am hyfforddiant, creu hyfforddiant iechyd a diogelwch cyflawn fydd yn hybu, datblygu a chynnal ymwybyddiaeth gadarnhaol ynglŷn ag iechyd a diogelwch, ac a fydd yn sicrhau fod y staff wedi eu hyfforddi a'u datblygu'n llawn i ddarparu gwasanaeth sy'n addas i'w bwrpas.
5. Sefydlu methodoleg asesu risg addas i gydymffurfio â deddfwriaeth a sicrhau fod yr holl botensial o risg wedi eu hadnabod a bod mesurau rheoli wedi eu sefydlu a'u monitro. Yn cynnwys trosolwg o gofrestri risg cydweithio, adrannol a lleol.
6. Gweithio ar y cyd gyda'r tîm iechyd a ffitrwydd, yn benodol yng nghyswllt sicrhau fod y safonau iechyd, ffitrwydd a lles yn cael eu cynnal.
7. Cynrychioli GTAGC a gweithio ar y cyd gyda fforymau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol perthnasol.
8. Cefnogi arweinwyr rheolaethol strategol, mynychu grwpiau gwaith perthnasol a chynghori ar faterion iechyd a diogelwch.
9. Rheoli proses adnewyddu ar gyfer yswiriannau'r gwasanaeth a'r materion dyddiol a gwyd o'r polisïau a hawliant gyswllt.
10. Ymgymryd ag ymchwiliadau iechyd a diogelwch yng nghyswllt unrhyw ddigwyddiad perthnasol neu hawliant a wneir yn erbyn yr Awdurdod Tân. Ymgysylltu gyda chyfryngwyr yng nghyswllt ymchwiliadau sy'n ymwneud â hawliant yswiriant.
11. Casglu / cwblhau a dychwelyd cynrychiolaeth fanwl o wybodaeth a dogfennaeth sy'n ymwneud a gwybodaeth sydd wedi ei geisio drwy yswirwyr o fewn terfynau amser llym.
12. Ymweld â lleoliadau digwyddiad ar y cyd ag Arolygwyr yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn ystod ymweliadau ac adrodd am y casgliadau i Dîm Arweinyddiaeth y Gwasanaeth. Sicrhau fod yr holl weithrediadau a nodwyd yn cael eu cwblhau mor fuan ag sy'n bosibl, yn ymarferol.
13. Gallu darganfod ffynhonnell ystod o ddata a'i ddehongli er mwyn adnabod materion a chynnig argymhellion ac atebion; sicrhau cydymffurfiaeth â'r GDPR.
14. Cefnogi sefydlu systemau gweithio diogel sy'n unol ag Arweiniad Gweithredol Cenedlaethol a dogfennau a safonau allweddol eraill.
15. Gweithredu fel yr unig bwynt cyswllt ar gyfer ymgysylltu gydag Arolygwyr yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a sicrhau bod cydymffurfiaeth â gofynion adrodd megis Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus.

16. Rheoli ac adfeddu unrhyw gyllid a ddynodir.

17. Arwain a rheoli cyfrifoldebau'r sefydliad am Reoli Parhad Busnes.

18. Gweithio gyda'r Rheolwr Amgylchedd a Newid Hinsawdd i gefnogi ymateb y Gwasanaeth i ddeddfwriaeth amgylcheddol, codau ymarfer sydd wedi eu cymeradwyo a safonau diwydiant sy'n berthnasol i GTAGC gan gynghori ar y gweithredoedd angenrheidiol i gydymffurfio â'r fframwaith deddfwriaethol.

19. Cymryd camau rhagweithiol llwyddiannus i atal neu gael gwared ag anghydraddoldeb i wella tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant ymhob agwedd sy'n ymwneud â phobl.

20. O bryd i'w gilydd, ymgymryd â'r dyletswyddau hynny sydd wedi eu cytuno a'u cyfarwyddo gan y Prif Swyddog Tân, sy'n gywerth â graddfa'r swydd hon.

## Cyfrifoldeb Goruchwylio

Rheolwr Llinell i gymhorthydd gweinyddol Iechyd a Diogelwch.

## Cyfrifoldeb Ariannol

Rheoli unrhyw gyllid cyswllt yn ôl y gofyn o fewn y rôl a'r dyletswyddau.

## Cyswllt y tu allan i'r adran ei hun

Personél amrywiol o fewn adrannau mewnol, ym mhob swyddfa a gorsaf.

Asiantaethau allanol amrywiol, awdurdodau eraill, gwasanaethau brys eraill, gwasanaethau tân ac achub eraill.

Arolygwyr yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

Grŵp Pwyllgor Penaethiaid Tân Cenedlaethol rhanbarthol yng Nghymru

## Gofynion Iaith

Sgiliau Iaith Cymraeg Lefel 2 gyda chyfnod prawf.

## Gwiriadau Cyflogaeth / Gofynion Penodol

Gwiriad DBS

## Hyfforddiant Gorfodol

Yn ôl y gofyn gan y Gwasanaeth

## Amodau Gwaith

Gweithio yn y swyddfa'n bennaf ond gyda'r angen i fynychu gwahanol eiddo'r gwasanaeth, lleoliadau damweiniau ac ymarferion. Bydd y rôl hon yn gofyn am hyblygrwydd ar gyfer oriau gwaith oherwydd anghenion ymarfer gweithio'r Gwasanaeth. Er enghraifft, yr angen i weithio gyda'r nos a phenwythnosau'n achlysurol.

# Manyleb y Person

## Cymwysterau, Gwybodaeth a Phrofiad

| **Hanfodol**<br>Y nodweddion na ellid penodi deiliad y swydd hebddynt |
|---|
| Diploma NEBOSH neu gymhwyster lefel 6 gywerth mewn Iechyd a Diogelwch. |
| Aelod/ Aelod Corfforaethol o Sefydliad Diogelwch a Iechyd Gwaith neu ymroddiad i fod yn Aelod Corfforaethol o IOSH. |
| Dealltwriaeth drwyadl a chyfredol o themâu perthnasol yn cynnwys cyfraith sifil a throseddol, rheolaeth Iechyd a Diogelwch a datblygiadau technegol. |
| Gallu creu amgylchedd o welliant sefydliadol drwy gyflwyno syniadau newydd, prosesau sefydliadol a mentrau newid diwylliant. |
| Adolygu'r system iechyd a diogelwch yn rhagweithiol i adlewyrchu newidiadau gan ddylanwadwyr allanol ac i ymateb i ymgysylltu gyda staff. |
| Profiad a gallu sydd wedi ei gadarnhau o ddadansoddi dehongli a chyflwyno data/materion cymhleth i amrywiaeth o gynulleidfaoedd ar lafar ac yn ysgrifenedig. |
| Meddu ar y sgiliau i ddatblygu a chynnal perthnasau gwaith effeithiol gyda rhanddeiliaid allweddol. |
| Gallu arddangos sgiliau trefnu datblygedig i gydbwyso amryw o flaenoriaethau pwysig; darparu goliau cynllun mewn pryd; a chynnal rôl reolaethol gefnogol. |
| Gallu adnabod cyfleoedd ar gyfer gwelliant ac arwain tîm i gynhyrchu syniadau newydd, cynhyrchu ystod o atebion i broblemau. |
| Gallu gweithio'n effeithiol gyda rhaglenni MS Office a Suite. |
| Meddu ar drwydded yrru ddilys y DU. |
| Bod yn fodlon teithio oddi ar y safle i ymgymryd â dyletswyddau'n lleol, yn rhanbarthol a chenedlaethol, yn cynnwys aros dros nos lle bo'r angen. |

| |
|---|
| Profiad o arwain a goruchwylio rheolaeth tîm iechyd a diogelwch lle mae datblygu a symbylu eraill wedi cyflawni goliau'r sefydliad. |
| Cofnod o lwyddiant wrth reoli proses hawliant yn llwyddiannus o fewn sefydliad a gweithio gyda chwmnïau yswiriant a thrydydd parti eraill. |
| Gallu profedig o reolaeth risg sefydliad yn unol â'i gyfrifoldebau yn ôl deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch. |
| Gweithio gyda phobl i ddarparu cyngor iechyd a diogelwch i bob lefel o'r sefydliad ac mewn fformat sy'n ddealladwy ac sy'n cefnogi gwneud penderfyniadau. |
| Gallu profedig o fentergarwch, rheoli newid a chyflawniad mewn gweithgareddau strategol sydd wedi eu hanelu at welliant iechyd a diogelwch parhaus. |
| Gallu cyfathrebu'n effeithiol gydag asiantaethau allanol (Arolygwyr yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, Awdurdod Gweithredol iechyd Cyhoeddus, ceisiadau'r cyhoedd neu gyrff Cyhoeddus) yn unol â disgwyliadau sy'n cynnwys pryderon iechyd a diogelwch. |
| Profiad o gynllunio a rheoli adnoddau cyllidol, corfforol a dynol yn ôl canlyniadau amser, cyllideb ac ansawdd er mwyn cyflawni strategaeth ac amcanion y sefydliad. |
| Gallu alinio strategaeth iechyd a diogelwch i Safonau cenedlaethol perthnasol yn cynnwys Arweiniad Gweithredol Cenedlaethol a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. |
| Cyflawni cydbwysedd (ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub) ayyb |
| Gwybodaeth gadarn ac ymroddiad i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant |
| Gallu sgwrsio'n ddidrafferth gydag aelodau. |
| **Dewisol**<br>Nodweddion ychwanegol y gellir eu defnyddio i ddewis rhwng ymgeiswyr sy'n bodloni'r holl feini prawf hanfodol |
| Gradd feistr neu ddiploma ol-radd mewn iechyd a diogelwch (gallai meysydd astudio gynnwys yr amgylchedd neu les). |

## Sgiliau

| **Hanfodol**<br>Y nodweddion na ellid penodi deiliad y swydd hebddynt |
|---|
| Gallu dehongli deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch yng nghyd-destun yr Awdurdod Tân. |

| |
|---|
| Gallu cynhyrchu polisi ysgrifenedig ac egluro cysyniadau cymhleth yn gryno. |
| Sgiliau cyfathrebu llafar rhagorol, yn cynnwys profiad cyflwyno a hyfforddi i wahanol gynulleidfaoedd. |
| Record dda o ddarparu gwasnaethau Iechyd a Diogelwch wedi eu canolbwyntio ar y cwsmer yn ôl amserlenni manwl a therfynau amser penodol. |
| Sgiliau rhyngbersonol cryf a'r gallu i ddylanwadu, perswadio a chyfathrebu gyda phobl ar bob lefel o fewn y sefydliad a gyda rhanddeiliaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. |
| Gallu rheoli adnoddau i gyfarfod amcanion a gofynion cystadleuol a chymhleth. |
| Ymwybyddiaeth wleidyddol a sgiliau rheoli enw da hynod o ddatblygedig |
| Sgiliau rheoli cryf, yn cynnwys sgiliau arwain a symbylu. |
| **Dewisol**<br>Nodweddion ychwanegol y gellir eu defnyddio i ddewis rhwng ymgeiswyr sy'n bodloni'r holl feini prawf hanfodol |
| Wedi hyfforddi/ addysgu hyd at ddull Rheolaeth Prosiect gydnabyddedig (Prince 2 er wnghraifft) |

## Gofynion Perthnasol Eraill

| **Hanfodol**<br>Y nodweddion na ellid penodi deiliad y swydd hebddynt |
|---|
| Gallu gweithio yn ôl menter eich hun heb fawr o oruchwyliaeth a chyfarwyddyd. |
| Profiad amlwg o reoli tîm yn effeithiol. |

Sylwer: Er mwyn cael eich rhoi ar restr fer y swydd hon, bydd angen i chi ddangos eich bod yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol.

# Sgiliau yn yr Iaith Gymraeg

## Lefel 2

Yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, rydym yn credu y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru.

Rydym yn ymfalchïo yn y ffaith ein bod ni wedi cymryd y mater o iaith o ddifrif dros flynyddoedd lawer. Drwy gydnabod ein dyletswyddau moesol a chyfreithiol i ddiogelu treftadaeth ddiwylliannol yr ardal ac i fodloni disgwyliadau'r gymuned leol, rydym yn cydnabod y manteision cadarnhaol i'r gwasanaeth hefyd o gynnal ein busnes cyhoeddus yn y ddwy iaith. Mae achub bywydau a lleihau risg wrth wraidd ein cenhadaeth – ac mae iaith yn hanfodol i'w lwyddiant.

Mae gofyniad Cymraeg y swydd hon yn lefel 2 ac mae'r sgiliau gofynnol wedi'u nodi isod.

| **Maes Sgil** | **Gofynion Safonnau'r Iaith Gymraeg** |
|---|---|
| **Gwrando / siarad** | • Ddeall rhan helaeth o sgwrs yn y gwaith.<br>• Ymateb i geisiadau syml yn ymwneud â'r gwaith a cheisiadau am wybodaeth ffeithiol. Gofyn cwestiynau syml a deall atebion.<br>• Rhoi barn mewn modd cyfyngedig, cyn belled â bod y testun yn gyfarwydd.<br>• Deall cyfarwyddiadau pan fo iaith syml yn cael ei defnyddio. |
| **Darllen** | • Ddeall gwybodaeth ffeithiol ac arferol a chynnwys gwybodaeth anarferol ar faterion ymwneud â'ch maes gwaith, e.e. mewn llythyrau safonol, pamffledi. |
| **Ysgrifennu** | • Ysgrifennu nodiadau syml, cofnodi gwybodaeth syml ar ystod eithaf cyfyng o faterion yn ymwneud â'ch profiadau personol neu o fewn eich maes gwaith. |



# Llinell Amser Recriwtio

| Gweithgaredd Recriwtio | Dyddiad |
|---|---|
| Dyddiad Cau | 05/10/2026 |
| Disgwylir i'r cyfweliadau gael eu cynnal | Yr wythnos yn dechrau 19/10/2026 |

# Sut i ymgeisio

I wneud cais am y swydd hon, rhaid i bob ymgeisydd lenwi ein ffurflen gais. Mae’r ffurflen gais i’w chael ar dudalen Swyddi Gwag presennol ein gwefan. Dylid cyflwyno ffurflenni wedi’u llenwi drwy e-bost at recriwtio@tangogleddcymru.llyw.cymru

Gofynnir i chi beidio danfon eich CV gyda’r Ffurflen Gais gan mai dim ond y wybodaeth a roddir ar y Ffurflen Gais fydd yn cael ei ddefnyddio wrth greu rhestr fer.

Pan fyddwch yn cwblhau eich cais, gofynnir i chi ymgyfarwyddo gyda’r Disgrifiad Swydd a’r Manylion Person yn y pecyn gwybodaeth yma fel eich bod yn deall y gofynion ynglŷn a chymwysterau, sgiliau a phriodoleddau hanfodol ar gyfer y rôl. Bydd angen i chi ddangos eich bod yn bodloni’r holl feini prawf hanfodol sydd ym manyleb y person er mwyn cyrraedd y rhestr fer yn y cam nesaf. Mae eich cyfle o fod ar y rhestr fer am gyfweliad yn seiliedig ar y wybodaeth a roddwch ar eich ffurflen gais.

Os oes angen unrhyw addasiadau rhesymol arnoch yn ystod y broses recriwtio, rhowch wybod i ni cyn gynted â phosibl. Byddai hefyd yn ddefnyddiol pe gallech rannu adroddiad meddygol neu ddogfennaeth berthnasol sy’n amlinellu’r addasiadau a allai eich cefnogi orau.

Sicrhewch eich bod yn anfon eich cais cyn y dyddiad cau gan nad yw ceisiadau hwyr yn cael eu derbyn.

Os ydych yn cael unrhyw broblem cael gafael ar y ffurflen gais neu ei chwblhau, cysylltwch â’r tîm Recriwtio: recriwtio@tangogleddcymru.llyw.cymru neu ffoniwch 01745 535 281.

## Deallusrwydd Artiffisial (AI)

Rydym yn cydnabod y gall ymgeiswyr ddefnyddio offer AI neu adnoddau eraill yn ystod y broses ymgeisio. Fodd bynnag, mae’n hanfodol bod yr holl wybodaeth rydych chi’n ei gyflwyno yn ffeithiol gywir, yn wir, ac yn gyfan gwbl eich gwaith eich hun. Dylai eich cais adlewyrchu eich profiadau, eich syniadau a’ch llais eich hun i sicrhau ei fod yn ddilys ac yn gredadwy.

Sylwch y gellir gwrthod ceisiadau os oes tystiolaeth o lên-ladrad (plagiarism) neu or-ddibyniaeth ar gynnwys a gynhyrchir gan AI. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno syniadau, profiadau, neu ddeunydd a grëwyd gan eraill, neu gan ddeallusrwydd artiffisial, fel eich un chi.

Os cewch eich gwahodd i gyfweld, byddwch yn ymwybodol bod defnyddio offer AI wedi’i wahardd yn llwyr, gan gynnwys at ddibenion fel trawsgrifio, recordio, neu gymryd nodiadau. Gall unrhyw ddefnydd amheuol o offer o’r fath arwain at derfynu eich cyfweliad a’ch tynnu’n ôl o’r broses recriwtio.

## Gwybodaeth bellach

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn a’r rôl hon neu os hoffech sgwrs anffurfiol cyn ymgeisio, mae croeso i chi gysylltu a Tom Brain, Rheolwr Gweithrediadau Technegol ar 07899 233 775 neu thomas.brain@tangogleddcymru.llyw.cymru.

Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bob rhan o’r gymuned. Rydym wedi ymrwymo i roi cyfle cyfartal i’r holl staff ac

mae ceisiadau yn cael eu hannog gan unigolion waeth beth fo'u sefyllfa o ran oedran, anabledd, rhywedd, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred a phriodas a phartneriaethau sifil.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb yn gydradd i'r naill iaith ac yn ymateb yn eich iaith ddewisol heb oedi. Ni fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

Mae apwyntiadau yn destun gwiriad Hawl i Waith dilys, geirdaon boddhaol, prawf Cyffuriau ac Alcohol, a chwblhau gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Sylwch y bydd y gwiriad DBS yn datgelu euogfarnau neu rybuddion wedi'u treulio a'u gwario.